

**‘Sut allwn wella rheolaeth ddosbarth trwy ganmol
ymddygiad da?’**

Tabl Cynnwys

Nod, ffocws a phwrpas yr ymchwil	2
<i>Cwestiwn ymchwiliadol.....</i>	<i>2</i>
Cyd-destun ymchwil.....	2
<i>Golwg gyffredinol</i>	<i>2</i>
<i>Ysgol 1</i>	<i>2</i>
<i>Ysgol 2</i>	<i>3</i>
Adolygiad Llenyddiaeth.....	3
Methodoleg	7
Materion Moeseg.....	10
Astudiaeth Gwers 1	11
Astudiaeth Gwers 2	12
Canfyddiadau	13
<i>Ffigur 1: Graff Canmoliaeth/sylwadau negyddol Dosbarth Cyfan</i>	<i>15</i>
<i>Ffigur 2: Graff Canmoliaeth gyffredinol a labelu plant targed.....</i>	<i>16</i>
Casgliad	17
Argymhellion	18
Rhestr Cyfeirnodï	20
Atodiadau	22
<i>Atodiad A</i>	<i>22</i>
<i>Cwestiynau'r cyfweiliadau.....</i>	<i>22</i>
<i>Atodiad B.....</i>	<i>23</i>
<i>Siart cyfrif o ymddygiadau'r tri phlentyn ffocws Ysgol 2</i>	<i>23</i>
<i>Siart cyfrif o ymddygiadau'r tri phlentyn ffocws Ysgol 1</i>	<i>23</i>
<i>Atodiad C.....</i>	<i>24</i>
<i>Siart cyfrif o eirfa gadarnhaol/negyddol Ysgol 2</i>	<i>24</i>
<i>Siart cyfrif o eirfa gadarnhaol/negyddol Ysgol 1</i>	<i>24</i>
<i>Atodiad D</i>	<i>25</i>
<i>Taflen wybodaeth</i>	<i>25</i>
<i>Atodiad E.....</i>	<i>26</i>
<i>Tabl adfyfrio Ysgol 1</i>	<i>26</i>
<i>Atodiad F.....</i>	<i>28</i>
<i>Tabl adfyfrio Ysgol 2</i>	<i>28</i>

Nod, ffocws a phwrpas yr ymchwil

Nod a phwrpas yr ymchwil yw gweld sut mae canmol ymddygiad da mewn dosbarth yn cael effaith cadarnhaol ar reolaeth dosbarth. Trafodais hwn gyda fy mhartner gan ystyried ein profiad addysgu yn y Cyfnod Sylfaen ble roeddwn ni'n dwy yn cytuno bod canmol ymddygiad da wedi fy helpu ni ym mhersonol gyda rheolaeth dosbarth ac wedyn roeddwn yn dadlau a fyddai hwn yn gweithio cystal gyda'r plant hŷn yng Nghyfnod Allweddol 2? Penderfynir bod y pwnc sef rheolaeth dosbarth trwy ganmol ymddygiad da yn creu dipyn o ddiddordeb rhwng y ddwy ohonom a hefyd roeddwn yn gallu gweld bydd ymchwil o gwmpas y pwnc yma yn ddefnyddiol ar gyfer ymarfer ein hunain. Yn yr aseiniad yma byddaf yn ceisio trafod yr ymchwil a chasglwyd trwy gynnal astudiaeth gwers o gwmpas y cwestiwn ymchwiliadol 'Sut allwn wella rheolaeth ddosbarth trwy ganmol ymddygiad da? Byddaf yn edrych ar drosolwg o lenyddiaeth berthnasol, trafod y fethodoleg fe ddefnyddir i gasglu data cynradd ac yna gwerthuso'r data gan hefyd trafod unrhyw argymhellion ar gyfer ymchwil pellach yn y dyfodol.

Cwestiwn ymchwiliadol

'Sut allwn wella rheolaeth ddosbarth trwy ganmol ymddygiad da?'

Cyd-destun ymchwil

Golwg cyffredinol

Cytunodd fy mhartner a finnau i gydweithio oherwydd ein bod ni a diddordeb yn yr un pwnc ymchwil ac wedi cael profiad tebyg o ran rheolaeth dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen. Roeddwn y ddwy ohonom wedi cael ein sefydlu yn Gyfnod Allweddol 2 am y profiad addysgu a'r ymchwil yma.

Ysgol 1

Addysgodd fy mhartner mewn ysgol yn nhref fechan yng Ngorllewin Sir Gaerfyrddin. Mae 116 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 19 o blant meithrin amser llawn (Estyn, 2013). Mae dwy ffrwd ieithyddol yn yr ysgol, ond mae plant meithrin, derbyn a blwyddyn 1

yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Darparwyd ethos teuluol a gofal bugeiliol o fewn pedair wal yr ysgol. Mae gan tua 18% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae gan 30% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys nifer bach o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (Estyn, 2013).

Yr ystafell ddosbarth a fydd yn ymwneud â'r ymchwil hon yw dosbarth gallu cymysg sy'n cynnwys 24 o ddisgyblion ym mlwyddyn 4, 5 a 6.

Ysgol 2

Fe wnes i addysgu mewn ysgol drefol yn ne orllewin Cymru sydd a 363 o ddisgyblion rhwng yr oedran 3-11 sydd yn cynnwys 44 o ddisgyblion llawn amser a 22 rhan amser yn y meithrin (Estyn, 2017). Fe'u rhennir y disgyblion mewn i 13 dosbarth, sy'n cynnwys 12 dosbarth oedran cymysg (Estyn, 2017). Mae tua 5% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim sy'n sylweddol is na'r ganran genedlaethol. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 9% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ond prin iawn yw'r rhai sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (Estyn, 2017).

Yr ystafell ddosbarth a fydd yn rhan o'r ymchwil hwn yw dosbarth gallu cymysg sy'n cynnwys 23 o ddisgyblion ym mlwyddyn 3 a 4

Adolygiad Llenyddiaeth

Cyhoeddwyd cryn dipyn o lenyddiaeth o gwmpas y pwnc; Sut mae canmol ymddygiad da yn cael effaith ar reolaeth ac ymddygiad y dosbarth. Mae canmoliaeth yn strategaeth sydd yn rhwydd ac yn rhad i weithredu ac wedi bod yn rhywbeth sydd wedi cael ei astudio ers y 1960au fel strategaeth i gynorthwyo athrawon gyda rheolaeth dosbarth (Hall, Lund a Jackson, 1968). Mae gwerth a phwysigrwydd canmol disgyblion yn enfawr ac mae yna nifer o fuddion o wneud hyn mewn dosbarth fel creu ethos/awyrgylch positif yn y dosbarth, gwella perthynas efo plentyn, atgyfnerthu ymddygiad da ac ysgogi disgyblion i ymdrechu'n galetach (Webster-Stratton, 1999). Byddwn ni yn edrych yn benodol ar sut mae canmol ymddygiad da yn medru gwella rheolaeth dosbarth.

Dywed Ellis a Tod (2014) bod yr angen i athrawon ganolbwyntio ar ymddygiad cadarnhaol wedi ei sefydlu mewn arweiniad ac ymddygiad cenedlaethol. O ran rheolaeth dosbarth a rheoli ymddygiad, canmoliaeth ac adborth cadarnhaol yw un o'r strategaethau mwyaf effeithiol (Docking a MacGrath, 2013). Mae'r damcaniaethau ymddygiadaeth sydd wedi cael eu datblygu gan Skinner a Thorndike yn dangos bod gwobrwyo plentyn a chanmoliaeth, anogaeth a sylw yn debygol o olygu y bydd y plentyn yn ailadrodd y weithred honno (Riddall - Leech, 2003). Yn ôl Brophy:

Most educational psychologists and other sources of advice to classroom teachers stress the value of reinforcement of good conduct or successful performance, and single out teacher praise as a particularly valuable and desirable form of such reinforcement (Brophy, 1981, tud. 5).

Dywed Canter a Canter M (1992) bod canmoliaeth yn creu awyrgylch cadarnhaol yn y dosbarth, yn helpu i gynnal ymddygiad priodol ac yn lleihau problemau ymddygiad.

Nododd Brophy (1981) fod yn rhaid i ganmoliaeth gan yr athro fod yn amodol, yn benodol i ymddygiad penodol ac y dylai fod yn ddiffuant i fod yn effeithiol. Mae'r amodau yna yn cyfeirio at ganmoliaeth yn gyffredinol, yn ogystal â hyn roedd Brophy (1981) yn pwysleisio'r pwyntiau isod ar gyfer canmoliaeth ar gyfer ymddygiad da:

- Darperir adborth i unigolion yng nghyd-destun ymagwedd dosbarth cyfan le mae ymddygiadau dysgu dymunol yn hysbys
- Dylai'r adborth fod yn ddisgrifiadol a rhoi digon o wybodaeth i'r disgybl i ddeall yr ymddygiad sy'n cael ei chanmol a bod hwn yn amlwg i weddill y dosbarth i fedru dilyn drwy esiampl
- Dylid rhoi adborth cadarnhaol am ymdrech, gwelliant a chyflawniad mewn dysgu ac ymddygiad
- Ni ddylid cymysgu adborth cadarnhaol gydag adborth negyddol

Hawlia Ellis a Tod (2014) taw un o'r rhesymau nad yw athrawon yn canmol ymddygiad da digon aml yn y dosbarth yw oherwydd maent yn gweld ymddygiad da fel disgwyliad sylfaenol ac felly ddim yn gweld yr angen i'w chanmol a dathlu.

Mae yna lawer o ymchwil ar faint o ganmoliaeth dylai athrawon rhoi i blant i gymharu â faint o sylwadau negyddol gyda Dix (2007) yn awgrymu cymhareb o bum sylwad da i bob sylwad negyddol ond mae Ellis a Tod yn pwysleisio bod ansawdd y ganmoliaeth yn

bwysicach na'r niferoedd. Mae adborth cadarnhaol gan rywun mae'r disgybl yn parchu yn hytrach na rhywun arall yn llawer mwy tebygol o fod yn fwy arwyddocaol a chael gwell dylanwad. Mae canmoliaeth felly ond yn gweithio os ydy'r disgyblion yn parchu'r athrawon sy'n rhoi'r ganmoliaeth a hefyd ond os ydy'r disgyblion yn parchu cymeradwyaeth athrawon yn gyffredinol.

Un o'r strategaethau canmoliaeth mae athrawon yn defnyddio yw canmoliaeth agosatrwydd, sy'n golygu anwybyddu ymddygiad gwael trwy ganmol ymddygiad da e.e. os ydy plentyn yn troi o gwmpas a siarad gall yr athro tynnu sylw'r plentyn trwy ganmol rhywun sydd yn eistedd yn smart ac wynebu'r blaen. Mae'r dechneg hwn yn gallu bod yn fwy pwerus os yw'r athro wedyn yn rhoi canmoliaeth yn syth i'r disgybl sy'n addasu a dangos yr ymddygiad gofynnol (Ellis a Tod, 2014). Mae'r math yma o ganmoliaeth yn gweithio pan mae'r disgyblion yn medru clywed yr ymddygiad gofynnol ac mae hwn yn ddigon o ysgogiad lldyn nhw ymddwyn yn briodol.

Ar y llaw arall mae Docking a MacGrath (2013) yn pwysleisio bod angen i athrawon gwneud mwy na chanmol ymddygiad da ac anwybyddu ymddygiad annerbyniol a bod canmoliaeth yn llawer mwy cymhleth na hyn. Mae Brophy (1981) yn pwysleisio gall canmoliaeth fod yn aneffeithiol yn aml a hyd yn oed yn wrthgynhyrchol. Mae hwn yn medru digwydd pan mae'r ganmoliaeth yn rhy cyffredinol ac nid yn ddigon penodol. Mae astudiaethau ar ddatblygiad plant yn dangos bod plant ifanc lan at tua wyth mlwydd oed gyda'r awydd i blesio oedolion ac mae hyn yn medru cael dylanwad pwerus ar ymddygiad plant.

Mae athrawon aml yn ymgolli eu hun yn eu haddysgu ac ambell waith nid ydynt yn talu sylw ar yr ymddygiad da sy'n digwydd yn y dosbarth ac os anwybyddir yr ymddygiadau cadarnhaol hyn, mae siawns byddant yn diflannu. Mae'n bwysig bod athrawon yn gwneud ymdrech i ganmol ymddygiad cadarnhaol myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw athrawon sy'n delio gyda 30 o ddisgyblion yn mynd i allu sylwi ar yr holl ymddygiadau penodol a pherthnasol mae'r plant yn perfformio heb sôn am fedru atgyfnerthu'n effeithiol bob tro. Mae rhai athrawon yn ffocysu ar wahanol dargedau ymddygiad da ar gyfer cyfnodau penodol gan ganolbwyntio ar reolau penodol ac atgyfnerthu hyn drwy ganmoliaeth (Docking a MacGrath, 2013). Er hynny, ar achlysur mae pob athro yn naturiol yn synfyfyriol a phethau eraill sydd yn mynd ymlaen mewn dosbarth, pethau fel ymdrechu gyda phlentyn ac ymddygiad amhriodol, ac mae'r rhain yn medru cael effaith negyddol ar eu gallu nhw i

ganolbwyntio gwastad ar ymddygiad da mewn dosbarth (Webster - Stratton, 1999). Mae ymchwil yn dangos bod nifer o athrawon yn rhoi mwy o sylw at ymddygiad gwael ac o ganlyniad mae'r sylw hyn yn atgyfnerthu'r camymddygiad ac yn dilyn i fwy o broblemau ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth yn enwedig i'r plant sy'n mynnu sylw (Webster-Stratton). Pan mae athrawon yn cydnabod y pŵer maent yn medru cael ar atgyfnerthu ymddygiad disgyblion maen nhw'n lleihau'r sylw maent yn rhoi i ymddygiadau amhriodol. Wedyn, mae athrawon yn dechrau rhoi mwy o sylw i'r ymddygiad cadarnhaol ac o ganlyniad mae hwn yn medru cael effaith dramatig ac nid yn unig ar unigolion o fewn y dosbarth ond ar y dosbarth cyfan (Webster-Stratton).

Fodd bynnag mae nifer o athrawon yn amharod i ganmol neu roi sylw cadarnhaol i blant sydd â phroblemau oherwydd eu hofnau y bydd goblygiadau negyddol posibl i blant eraill. Mae rhai athrawon yn pryderu nad yw'n deg canmol rhai plant yn fwy nag eraill ac maent yn credu gall beri i rai plant deimlo'n annigonol os nad ydynt yn cael eu canmol gymaint â'u cyd-ddisgyblion (Webster - Stratton, 1999).

Mae canmoliaeth yn offeryn effeithiol a ddefnyddir gyda grŵp o blant oherwydd y pŵer o bwysau gan gyfoedion i annog y disgyblion yn ogystal â bod yn effeithiol gydag unigolion (Webster - Stratton, 1999).

Awgrymodd Ellis a Tod (2014) efallai bydd y disgyblion eu hun yn gallu rhoi rhywfaint o wybodaeth am beth yr hoffent ddigwydd pan fyddan nhw yn gwneud rhywbeth da. All hwn efallai bod yn opsiwn i'r disgyblion sydd yn ymddangos nad yw'r cyfuniad arferol o adborth cadarnhaol a gwobrau yn cynnig llawer o apêl. Mae Barrow hefyd yn pwysleisio efallai bod rhai disgyblion sy'n arfer a sylwadau negyddol yn teimlo'n anghyfforddus gyda gormod o ganmoliaeth.

Ni ellir anwybyddu'r ffaith bod nifer o astudiaethau wedi canfod bod yna cysylltiad rhwng athrawon yn cynyddu faint o ganmoliaeth maent yn defnyddio yn y dosbarth ac ymddygiad cadarnhaol (Floress et al. 2017). Tra bod dadl Floress et al (2017) efallai'n gywir, rhaid nodi cred Ware (1978) bod canmoliaeth athrawon yn atgyfnerthwr gwan yn enwedig ar ôl y blynyddoedd cyntaf disgyblion yn ysgol.

Methodoleg

Mae dulliau ymchwil yn cyfeirio at y technegau a gweithdrefnau a ddefnyddir yn y broses o gasglu a dadansoddi'r data er mwyn cael gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o bwnc penodol. Y fethodoleg a ddefnyddir yw ymchwil astudiaeth gwers, sy'n fath o ymchwil gweithredu sy'n cynnwys astudiaeth neu archwiliad manwl o'r arfer o addysgu. Datblygwyd y broses yn Siapan a death Peter Dudley (2014) a'r syniad i'r Deyrnas Unedig yn 2001. Mae'n ddull sydd wedi'i harbrofi a phrofi ac wedi datblygu momentwm dros yr 20 mlynedd ddiwethaf.

Mae Peter Dudley (2014) yn son am sut gall astudio gwersi wella dysgu, gwella'r drefn addysgu, gwella addysg gychwynnol a pharhaus gan athrawon a gwella'r cwricwlwm, yr asesu, yr arweinyddiaeth a'r system gyfan. Noda Dudley (2014) bod nifer o athrawon llwyddiannus yn ddall i raddau i lawer o'r hyn sy'n digwydd yn eu hystafelloedd dosbarth ac mae astudiaeth o'r wers yn gweithio am ei fod yn medru helpu'r athrawon i lenwi'r blychau rhwng yr hyn roedden nhw yn tybio oedd yn digwydd a'r hyn roedd yn digwydd mewn gwirionedd (Improving subject pedagogy through lesson study). Yn yr adran yma o'r aseiniad byddaf yn son am y fethodoleg a ddefnyddir yn ystod yr ymchwil er mwyn casglu'r data gan gyfeirio at unrhyw fanteision a chyfyngiadau wnaethom ystyried.

Penderfynir defnyddio cymysgedd o ymchwil ansoddol a meintiol i gasglu data cynradd. Gan ddefnyddio cymysgedd rydym yn gobeithio cyrraedd casgliad mwy cyflawn (Walliman, 2017). Mae data meintiol yn hawdd trin a gallwn gymharu canlyniadau yn eglur tra bod data ansoddol yn ffocysu ar ansawdd y gwersi. Drwy gynnal yr ymchwil byddwn yn trefnu astudiaeth gwersi gan ganolbwyntio a'r tri phlentyn targed (A, B a C) yn Ysgol 1 ac Ysgol 2, cyfweiliadau grŵp ffocws, adfyfrio a dadansoddi'r canlyniadau. Rydym yn bwriadu cynnal cyfweiliadau lled strwythuredig a nodiadau arsylwadau i gasglu data ansoddol a siartiau cyfrif i gasglu data meintiol. Mae yna gyfyngiadau i ymchwil ansoddol a meintiol ac felly mae'r defnydd o'r ddau yn opsiwn mwy ffrwythlon (Arthur, 2012). Fel ymchwilydd mae'n bwysig osgoi dangos barn ac emosiynau, felly byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio ffeithiau pendant a bod yn niwtral ar bob adeg (Walliman, 2017).

Ar ôl yr astudiaethau gwersi byddwn yn cynnal cyfweiliadau dilynol a bydd hwn yn helpu ni i ddeall prosesau meddwl y disgyblion a darparu gwell dealltwriaeth o'u sefyllfa o ran yr amcan dysgu (Dudley, 2014). Penderfynon ar y cyfweiliadau lled strwythuredig fel y

dull cyfweliad oherwydd mae'n cynnwys cymysgedd o adrannau strwythuredig a di-strwythuredig gyda chwestiynau safonol ac agored a phenderfynir o flaen llaw (gweler Atodiad A) gan sicrhau ein bod yn osgoi cwestiynau arweiniol, cwestiynau llwythog a chwestiynau dwbl. Oherwydd cyfyngiadau fel amser, penderfynom na fyddem yn gallu cyfweld pob plentyn yn y ddwy ystafell ddosbarth y bu'n yn cynnal yr ymchwil arnynt ac felly dewiswyd sampl fechan yn y ddau yn y gobaith fod y data a gasglwn yn gynrychioliadol neu'n nodweddiadol o'r holl weddill. Mae'r defnydd o gyfweliadau i gwestiynu samplau o bobl yn hyblyg iawn gydag ystod eang o gymwysiadau. Dewisom i gynnal cyfweliadau wyneb i wyneb gan ddefnyddio grŵp ffocws sy'n cynnwys sampl cynrychioliadol o'r dosbarth o ran ymddygiad, rhyw, anghenion ac oedran i dargeddi. Bydd y tri disgybl o fewn grwpiau ffocws mor gynrychioliadol â phosib o'r dosbarthau priodol a hefyd byddwn yn sicrhau bod y rhain wedi cael eu dewis er lles yr ymchwil yn hytrach nag unrhyw resymau arall megis bias a ffafriaeth ni fydd chwaith unrhyw gysylltiad personol rhwng yr ymchwilwyr a'r cyfranogwyr.

'The purpose of sampling is to use a relatively small number of cases to find out about a much larger number' (Gorard a Taylor, 2004, tud. 64)

Gall cyfweld grwpiau fod yn ddefnyddiol gyda phlant, gan ei fod yn annog rhyngweithio rhwng y grŵp yn hytrach nag ymateb i gwestiwn oedolyn yn unig. Mae cyfweliadau â grwpiau o blant hefyd yn llai brawychus iddynt na chyfweliadau unigol (Cohen, Manion a Morrison, 2002). Mae Dudley (2014) yn pwysleisio dylai cyfweliadau digwydd mor gynted â phosib ar ôl y wers ac felly byddwn yn ceisio gwneud hyn er mwyn cael y wybodaeth fwyaf effeithiol. Dosbarthwyd ffurflen caniatâd i rieni'r cyfranogwyr a bydd hawl gan bob cyfranogwyr dynnu nôl o'r cyfweliad heb oblygiadau negyddol. Yn ogystal â hyn, gofynnir am ganiatâd wrth y plant ar ddechrau'r gwersi yn unol â chanllawiau moesegol 'BERA'.

Dewisom i gynnal arsylwadau yn y ddwy ysgol hefyd ac mae hyn yn ddull o gasglu data drwy arsylwi yn hytrach na gofyn cwestiynau ac mae'n galluogi'r arsylwr i gymryd golwg ar wahân i'r hyn sydd yn digwydd heb gymryd rhan. Mae arsylwi yn ddull cyflym ac effeithiol er mwyn ennill gwybodaeth rag paratoadol ac i wneud asesiad rhagarweiniol o'r pwnc. (Walliman, 2017). Mae'r dull o arsylwi yn medru cael ei ddefnyddio i gofnodi data meintiol ac ansoddol ac felly fe wnaethon gasglu nodiadau maes fel data ansoddol a siart cyfrif fel data meintiol. Wrth arsylwi byddwn yn defnyddio tabl geirfa gadarnhaol a negyddol

er mwyn canfod data rhifiadol ac er mwyn cyfoethogi hyn, byddwn hefyd yn gwneud sylwadau ysgrifenedig er mwyn casglu data ansoddol

Defnyddion ni'r dull samplo tebygolrwydd i ddewis y sampl ym mhob un o'r dosbarthiadau a gwnaethom sicrhau bod pob grŵp (rhyw, grŵp blwyddyn) wedi ei ail-gyflwyno yn y sampl (Walliman, 2017). Cyfyngir ar faint y sampl gan nifer o ffactorau megis amser, nifer yr ymchwilwyr ac adnoddau (Cohen, Manion a Morrison, 2002).

Defnyddion ni system siart cyfrif er mwyn cofnodi ffeithiau ac i osgoi fod yn feirniadol (Hopkins, 2014). Cyn mynd ati i gynnal y cyfweiliadau grŵp fe wnaethom yn siŵr o ymchwilio cyfweiliadau effeithiol. Wnaethom sicrhau ein bod yn wrandawyr cydymdeimladol, diddorol a sylwgar i wneud yn siŵr ein bod yn cyfleu i'r plant ein bod yn gwerthfawrogi eu barn (Walliman, 2017). Roedd rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn niwtral o ran deunydd y pwnc a ddim yn mynegi barn ein hunain i ganiatáu ein bod ddim yn cael dylanwad ar atebion y plant. Fe wnaethom ymadrodd y cwestiynau yn yr un modd ar gyfer y ddau grŵp ond roeddwn hefyd yn barod i aralleirio cwestiynau os nad oedd y plant yn eu deall neu yn cynnig ateb amwys neu yn rhy gyffredinol. Y prif resymau wnaethon ni defnyddio cyfweiliadau oedd ffocysu ar agwedd benodol mewn dyfnder yn yr ystafell dosbarth ac i ddarparu gwybodaeth ddiagnosisitc gyffredinol. Byddwn yn defnyddio'r un gyfres o gwestiynau yn y ddau gyfweiliad i gynyddi gymaroldeb ymatebion y plant (Palaiologou, Needham a Male, 2015). Mae nifer o fanteision i gwestiynau penagored: maent yn hyblyg; maent yn caniatáu i'r cyfwelydd brocio fel y gall fynd i fwy o ddyfnder os yw'n dewis, neu i glirio unrhyw gamddealltwriaeth. (Cohen, Manion a Morrison, 2002). Mae gofyn cwestiynau penagored hefyd yn caniatáu bod llais y plant yn ganolog i'r drafodaeth a rhoi'r cyfle iddynt i ddadansoddi ymddygiad eu hun a'r effaith mae canmoliaeth yn cael hyn.

Fe wnaethon ni ganolbwyntio'n bennaf ar ddull arsylwi strwythuredig a defnyddio system gyfrif i gofnodi gwybodaeth am y myfyrwyr. Roedd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod y wybodaeth a gasglwyd gennym yn ffeithiol yn hytrach nag yn feirniadol (Hopkins, 2014). Defnyddion ni siart cyfrif i gasglu data ar ganmoliaeth yn gyffredinol yn yr ystafell ddosbarth a Thabl arall a oedd yn fwy arbenigol ar y tri disgybl targed.

I adfyfrio'r gwersi rydym wedi penderfynu defnyddio dull sy'n seiliedig ar waith Gibbs (1988) sy'n ffocysu ar y cylch myfyriol sy'n cynnwys chwech cam unigryw sy'n arwain o ddisgrifiad y digwyddiad/profiad drwy i'r casgliadau ac ystyriaeth ar gyfer digwyddiadau yn

y dyfodol (Gibbs, 1988). Byddwn yn adfyfyrio'r gwersi drwy ddilyn dull Gibbs (1988) sy'n ein caniatáu i symud yn rhesymegol o un gam i'r llall sy'n cynnwys:

1. Digwyddiadau
2. Teimladau
3. Llwyddiannau/Methiannau
4. Dadansoddiad
5. Casgliadau
6. Cynllun gweithredu

Bydd adfyfyrio ar y gwes yn medru helpu ni i edrych ar ffyrdd i newid a gwella ein methodoleg ar gyfer casglu data am y wers ddilynol. Dywed Costello (2003, tud. 3) taw pwrpas ymchwil gweithredol yw i "look for solutions and collaborate with other people to develop an understanding" i wella ac felly byddwn yn adfyfyrio er mwyn allu cyfoethogi ymarfer ein hunain.

Materion Moeseg

Mae cynnal ymchwil yn cynnwys plant bob amser yn codi materion moesegol ynghylch a sut mae'r plant yn cael eu trin ac felly mae ystyried y materion moesegol yma yn holl bwysig (Walliman, 2017). Wrth gynnal y gwaith ymchwil yn yr ysgolion byddwn yn sicrhau ein bod yn cael caniatâd o rieni'r disgyblion ac yna cydsyniad o'r disgyblion (gweler Atodiad D). Fodd bynnag byddwn yn cydymffurfio gyda chanllawiau BERA (2018) gan egluro i'r disgyblion bod ganddynt yr hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwil. Yn ystod yr ymchwiliad fe fydd gan y plant yr hawl i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei ystyried, hyn yn cydymffurfio gydag Erthygl 12, UNCRC. Byddaf yn sicrhau fy mod i yn dilyn canllawiau'r gweithle addysg, canllawiau BERA (2018) a chanllawiau Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd y Brifysgol ynglŷn â chaniatâd a chydsyniad (PCYDDS, 2017). Byddaf yn dilyn polisiau diogelu'r ysgol a'r Brifysgol er mwyn lles y plant a byddaf yn sicrhau bod yna ddau ymchwilydd yn bresennol yn ystod cyfweiliadau'r grwpiau ffocws.

Wedyn rhaid sicrhau bod y data ar gael i rieni, athrawon a chyfranogwyr os ydynt yn dymuno. I ganiatáu cyfrinachedd ac anhysbysrwydd y plant ar ysgolion byddwn yn cydymffurfio a chanllawiau BERA (2018) drwy gyfeirio at yr ysgolion fel ysgol 1 ac ysgol 2.

Byddwn hefyd yn cyfeirio at y cyfryngwyr drwy ddefnyddio llythrennau e.e.. Plentyn A. Yn ogystal â hyn byddwn yn sicrhau ein bod yn diogelu a storio data yn gywir gan ddilyn polisi archifo data'r Brifysgol sef y Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil PCYDDS (2017). Byddwn yn sicrhau bod y data yn cael ei throsglwyddo yn electroneg pan yn bosib a diogelwyd gan gyfrinair a byddwn yn sicrhau bod unrhyw ffeiliau ar bapur yn cael ei throsglwyddo yn electroneg mor gynted â phosib ac yna yn cael ei diogelu gan gyfrinair.

Astudiaeth Gwers 1

Roedd y wers gyntaf yn Ysgol 1 a'r pwnc oedd Mathemateg a nod y wers oedd trin a dehongli data. Mae'r dosbarth yn cynnwys cymysgedd o ddisgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 ac felly roedd yna nifer o weithgareddau yn cymryd lle ar yr un pryd. Roedd blwyddyn 4 a 6 yn canolbwyntio ar ddehongli graff a oedd wedi cael ei pharatoi iddynt ac roedd blwyddyn 5 yn llunio graff llinell ei hunain. Roedd yna ddefnydd helaethon o eirfa gadarnhaol o ganmoliaeth yn cael eu defnyddio trwy gydol y wers megis 'ffantastig', 'da iawn ti/chi', 'arbennig a gwyh'. Yn ogystal â defnyddio geirfa gadarnhaol i ganmol, roedd yr athrawes yn defnyddio unigolion fel esiamplau da ac yn eu gwobrwyo trwy ddefnyddio siart 'Ymddygiad da'. Dewisodd yr athro unigolyn ar gyfer ymddygiad da gan ganmol ymddygiad penodol. Roedd plentyn A yn gwrando trwy barchu llais disgybl arall yn y dosbarth wrth ddarllen wrth y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Roedd plentyn A yn fodeli ymddygiad da trwy eistedd yn llonydd, gwynebu'r ffordd iawn a dangos diddordeb. Roedd yr athrawes wedi canmol ymddygiad y plentyn gan bwysleisio ar yr hyn roedd yn ei wneud er mwyn i weddill y dosbarth medru copïo. Roedd hwn wedi gweithio'n dda ac roedd gweddill y dosbarth yn medru deall yn union pan roedd disgybl Ac wedi cael canmoliaeth wrth yr athrawes. Roedd hwn yn ymddangos i weithio'n well na'r ganmoliaeth gyffredinol.

Mae athrawon yn aml yn defnyddio arwyddion di-eiriau penodol neu ysgogiadau sydd wedi sefydlu'n glir ac yn cyfeirio at reolau penodol ar gyfer ymddygiad. Yn Ysgol 1, roedd yr athrawon yn defnyddio 'Olwyn Fflat' fel strategaeth ar gyfer rheolaeth dosbarth. Defnyddiodd yr athrawes hon i gael sylw'r dosbarth cyfan ar adegau pan oedd y sŵn yn

cynyddu yn uwch na'r disgwyl. Mae'n strategaeth gydweithredol sy'n golygu bod rhaid i'r plant ymateb ar lafar i orchymyn yr athrawes bob tro ac felly mae'n tawelu'r dosbarth cyfan yn syth. Roedd yr athrawes yn mynd ati i ganmol y dosbarth cyfan ar ôl iddynt ymateb a thawelu, ac mae hwn yn annog y plant i ddilyn y strategaeth bob tro i barhau i gyrraedd disgwyliadau'r strategaeth.

Yn dilyn ymlaen o'r wers gyntaf ar ôl adfyfrio (gweler Atodiad E) penderfynwyd bod labeli'r ganmolïaeth yn glir yn fwy effeithiol nag canmol yn gyffredinol. Mae'r plant yn cael gwell dealltwriaeth o ba ymddygiadau sy'n cael ei chanmol ac yn cymryd mwy o falchder o ganmolïaeth fanwl a penodol. Gan ein bod yn canolbwyntio ar ganmol ymddygiad da roedd hyn yn golygu roeddwn yn defnyddio llai o sylwadau negyddol. Roedd hwn yn amlwg yn y data meintiol a chasglwyd ac roedd hwn yn cael effaith dda ar ymddygiad.

Astudiaeth Gwers 2

Gwers Greadigol oedd y wers yn Ysgol 2. Nod y wers oedd cyfansoddi darn yn seiliedig ar thema'r dosbarth 'Dewch ar frys!'. Y gweithgaredd cyntaf oedd i'r plant i feddwl am funud tywod am beth yw ystyr 'Dewch ar frys!'. Ar ôl trafod ambell syniad o beth mae'r thema yn golygu yn gyffredinol a chael atebion fel 'heddlu', 'ambiwlans', 'helpu pobl', symudon flaen i'r gweithgaredd nesaf. Rhan nesaf y wers oedd rhannu'r disgyblion mewn grwpiau o 4 i feddwl am sefyllfa real neu ddychmygus ar y thema, er mwyn allu cyfleu'r sefyllfa mewn cerddoriaeth. Prif dasg y wers oedd cyfansoddi darn yn seiliedig ar y thema 'Dewch ar Frys!' gan ddefnyddio offerynnau traw a di-draw, sain, delwedd ac aml gyfrwng neu lais. Tasg greadigol oedd hon er mwyn i'r plant arbrofi a gweithio'n annibynnol i greu dehongliad eu hunain ar gerddoriaeth sy'n cysylltu ar thema ac yn cyfleu sefyllfa. Roedd y wers y rhoi cyfle i'r plant i ddysgu'n gydweithredol, dysgu'n annibynnol a hefyd yn asesu eu medrau creadigol. Meini prawf llwyddiant y wers oedd i'r plant i gyfansoddi darn syml, i weithio mewn grwpiau bychain yn annibynnol, ac i werthuso ac asesu eu gwaith.

Roedd y plant erbyn diwedd y wers yn perfformio i weddill y dosbarth yn eu grwpiau a hefyd yn trafod y sefyllfa er mwyn i'r disgyblion medru dilyn y darn. Yn ystod y wers roeddwn yn casglu tystiolaeth o sut oedd y plant yn cael eu canmol megis yn unigol, mewn grŵp neu fel dosbarth cyfan trwy hefyd cymryd sylw o'r iaith o'r ganmolïaeth oedd yn cael ei ddefnyddio.

Yn yr ysgol roeddwn yn defnyddio 'Llond Llaw' fel strategaeth rheolaeth dosbarth. Mae Llond Llaw yn ystum neu'n orchymyn sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol yn rheolaidd ac felly yn strategaeth sydd wedi cael ei phrofi ac yn un mae'r plant yn gyfarwydd a defnyddio. Mae'r gorchymyn o lond llaw yn golygu'r rheolau isod i'r plant:

- Clustiau ar agor
- Llygaid ar yr athro
- Ceg ar gau
- Dwylo ar y glin
- Traed ar y llawr

Roedd defnyddio'r strategaeth yma yn ystod y wers yn caniatáu i mi anwybyddu unrhyw ymddygiad dieisiau, ac yn galluogi mi i ffocysu ar ganmol yr unigolion oedd yn ymateb i'r gorchymyn a dilyn y rheolau. Roedd hwn yn y pendraw yn cael effaith domino ar y dosbarth cyfan. Roeddwn ond yn dewis unigolion yn y sefyllfa yma er mwyn dangos esiampl dda i'r gweddill, yn yr obaith byddant yn dilyn.

Ar ôl adfyfrio'r wers gyntaf roeddwn yn canolbwyntio yn y wers yma ar ganmoliaeth wedi'i labeli i weld os oeddent yn medru gweld sut roedd hwn yn cael effaith ar ymddygiad y dosbarth a hefyd sut oedd yn cymharu gyda'r wers gyntaf le wnaethon ganmol yn fwy cyffredinol. Yn ystod cyflwyniad y wers le roedd disgwyl i bawb eistedd yn llonydd ar y carped, gwynebu'r bwrdd gwyn a gwranddo ac ymateb fe wnaeth yr athrawes canmol unigolyn a labelu'r canmoliaeth yn glir a fe wnaeth plentyn A, B a C dilyn yr esiampl yn gyflym sy'n dangos bod yr canmoliaeth wedi cael effaith ar eu ymddygiad yn syth.

Ymhellach fe wnaethom adfyfrio ar y wers (gweler Atodiad F) er mwyn allu weld y llwyddiannau a methiannau ar gyfer deall y canlyniadau yn ddyfnach.

Canfyddiadau


Mae'r defnydd o strategaethau sefydledig rheolaeth dosbarth fel 'llond llaw' ac 'olwyn fflat' yn gwella ymddygiad y dosbarth mewn ffyrdd gwahanol. Mae rôl o ganmol y plant yn wahanol yn y ddwy strategaeth. Mae'r ganmoliaeth yn digwydd yn ystod llond llaw trwy'r athrawes yn defnyddio unigolyn fel esiampl dda er mwyn i'r neges cael effaith domino ar weddill y dosbarth. Roedd yr athrawes yn canmol y dosbarth cyfan yn gyffredinol

ar ôl iddynt ymateb yn briodol i'r olwyn fflat ar y diwedd. Mae 'Olwyn fflat' yn fwy slic ac yn gyflymach ac oherwydd yr angen i'r plant ymateb yn syth falle bod ganddynt fwy o chwant a diddordeb. Ar ôl defnyddio 'Llond llaw' yn y dosbarth roeddwn yn teimlo efallai bod e'n strategaeth sy'n fwy addas at oedran plant blwyddyn 3 a 4 oherwydd eu bod yn fwy awyddus i blesio. Mae 'Llond llaw' yn medru cymryd tipyn o amser oherwydd i'w ddefnyddio'n gywir, mae angen i'r athro aros nes bod pawb wedi tawelu cyn parhau gyda'r wers.

Roedd y grŵp ffocws Ysgol 2 yn disgrifio ymddygiad y dosbarth yn ddireidus a siaradus ond yn dda ar y cyfan. Roedd y disgyblion yn disgrifio sut roedd ymddygiad y dosbarth yn amrywio yn dibynnu ar yr athrawon a hefyd wahanol bynciau. Roedd disgybl C yn son am sut roedd ymddygiad unigolion yn gwella neu yn dirywio yn dibynnu ar faint maen nhw'n hoffi'r pwnc penodol roedd yn cael ei addysgu. Cytunodd y disgyblion eu bod yn hoffi cael ei chanmol am eu hymddygiad, gwaith ac ymdrech a bod canmoliaeth yn gwneud Iddyn nhw deimlo'n hapus a gwybodus. Ar yr un modd dwedodd disgybl B bod canmoliaeth yn gallu cael effaith negyddol ac yn gallu gwneud rhai disgyblion yn fwy cystadleuol gyda'u chyd ddisgyblion ac yn gallu gwneud nhw yn drahaus ond roedd hwn wrth gwrs yn dibynnu ar bersonoliaeth disgyblion a ddim yn gyffredin. Ar y llaw arall roedd y plant wedi sylwi bod ambell ddisgybl ddim yn cymryd unrhyw sylw o ganmoliaeth ac eraill wedyn yn rhoi'r gorau iddi os ydynt yn gweld cyd ddisgyblion yn cael canmoliaeth. Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn hyderus i ddweud eu bod yn hoff iawn o dderbyn canmoliaeth fel dosbarth cyfan oherwydd bod hwn yn golygu doedd neb yn cweryla ac yn dangos eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Serch hyn, roeddent wrth eu bodd yn derbyn canmoliaeth wrth yr athrawon yn unigol. Fel grŵp, cytunodd y disgyblion taw'r canlyniad oedd bod canmoliaeth yn helpu ymddygiad y dosbarth ar y cyfan ac yn gwneud Iddyn nhw eisiau gweithio yn galetach.

Roedd grŵp ffocws Ysgol 1 yn trafod bod canmol unigolion yn y dosbarth yn annog eraill i ddilyn esiampl a sut mae canmoliaeth yn gwneud Iddyn nhw deimlo'n hapus. Roedd y plant yn hoffi cael ei ganmol fel dosbarth ac mewn grwpiau. Disgrifiodd y disgyblion sut roedd ymddygiad cyd disgyblion yn cael effaith ar ymddygiad eu hunain a daethant i'r cytundeb bod canmoliaeth yn cael gwell effaith ar ymddygiad y dosbarth nag adborth negyddol oherwydd bod sylwadau negyddol yn gallu gwneud Iddyn nhw siomi a rhoi'r gorau iddi.

Roedd y data a chasglwyd o'r cyfweiliadau yn eithaf tebyg gyda'r plant i gyd yn teimlo bod canmoliaeth yn well strategaeth nag sylwadau negyddol i wella ymddygiad yn y dosbarth. Roedd y ddau grŵp ffocws yn hoffi'r teimlad o gael ei chanmol gyda'r ddau yn disgrifio'r teimlad o hapusrwydd wrth dderbyn canmoliaeth o'r athrawon, ond roedd y grŵp ffocws yn ysgol 2 hefyd yn gallu gweld sut all canmoliaeth cael effaith negyddol ar rhai o fewn y dosbarth ac yn gallu gwneud rhai disgyblion yn rhy hyderus ac awdurdodol. Yn ogystal â hyn, roedd grŵp ffocws ysgol 2 hefyd wedi disgrifio sut mae canmol unigolion yn gallu achosi dadleuon yn y dosbarth, ac yn gallu diflasu'r rhai sydd byth yn derbyn canmoliaeth. Roedd y ddau grŵp hefyd yn son am y syniad bod canmoliaeth yn annog iddynt weithio'n galetach.



Ffigur 1: Graff Canmoliaeth/sylwadau negyddol Dosbarth Cyfan

Mae'r graff Ffigur 1 uchod (gweler Atodiad C am y data crai), yn dangos faint o weithiau yn y ddwy wers fe wnaethom ganmol neu roi sylwadau negyddol i'r dosbarth cyfan, grwpiau ac unigolion. Fel y gwelir yn y graff, efallai oherwydd roeddwn yn canolbwyntio ar dynnu sylw i'r ymddygiad da roedd y defnydd o sylwadau negyddol yn cymharol isel. Mae'r llenyddiaeth yn tanlinellu hyn gan son am sut mae anwybyddu ymddygiad gwael a chanmol ymddygiad da yn cael effaith cadarnhaol ar reolaeth dosbarth (Webster - Stratton, 1999). Roedd yr unigolion yn y dosbarth yn cael ei chanmol y fwyaf yn


ysgol 1 ond yn ysgol 2 roedd yr unigolion a'r grwpiau yn cael eu canmol y mwyaf.

Gweithgaredd grŵp oedd y prif weithgaredd yn y wers yn Ysgol 2 ac felly mae hwn yn gwneud synnwyr.

Roedd y plant yn y grŵp ffocws Ysgol 2 yn son am sut mae canmoliaeth yn gallu achosi dadleuon yn y dosbarth, a chreu naws cystadleuol ar adegau. Ni ellir anwybyddu'r ffaith felly bod y plant ddim gwastad yn gweld canmoliaeth fel rhywbeth cadarnhaol. Byddai ymarferwyr lluniadaeth yn cytuno ac yn credu bod canmoliaeth yn creu hierarchaethau a chystadleuaeth yn yr ystafell ddosbarth (Robins, 2012). Ar wahân i hynny gellid dweud bod y grŵp yn cytuno bod canmoliaeth ar y cyfan yn helpu ymddygiad y dosbarth.

Ar y llaw arall roedd y grŵp ffocws yn Ysgol 1 ond yn gweld canmoliaeth fel rhywbeth da, a ddim wedi son eu bod yn gallu achosi cystadleuaeth a diflastod rhwng disgyblion. Mae hyn yn cadarnhau gwaith Webster - Stratton (1999) bod rhai myfyrwyr yn ymateb i ganmoliaeth ac anogiad athrawon yn gadarnhaol tra bod eraill yn ddrwgdybus ohono.

Roedd y grwpiau ffocws yn y ddwy ysgol wedi trafod sut mae canmoliaeth yn gwneud nhw deimlo'n hapus ac yn fwy hyderus yn beth maen nhw'n gwneud. Nodir Robins (2012) sut mae canmoliaeth yn ysgogydd pwerus ac mae canmol disgyblion am ymddygiad da neu waith da yn helpu adeiladu eu hunan barch a hunanhyder.



Ffigur 2: Graff Canmoliaeth gyffredinol a labelu plant targed

Wrth edrych ar ffigur 2 uchod (gweler Atodiad B am y data crai), mae canmolïaeth gyffredinol yn cyfeirio at eiriau o ganmolïaeth megis ‘Da iawn’, ‘gwyh’ a ‘ffantastig’ ac mae canmolïaeth wedi’i labelu yn cyfeirio at sylwadau sydd wedi cael ei ehangu ac yn son am rywbeth penodol e.e. ‘Da iawn am roi dy law lan i ateb cwestiwn’. Mae’n amlwg wrth edrych ar y graff roedd yna lawer mwy o ganmolïaeth gyffredinol wedi digwydd yn y wers gyntaf ac ar ôl trafodaeth a chyfweliad gyda’r grŵp ffocws yn dilyn y wers, fe benderfynwyd bod canmolïaeth benodol yn cael gwell effaith ar y cyfan. Fe wrandawon ar lais y plant ar ôl iddynt son bod canmolïaeth benodol yn rhwyddach iddyn nhw ddeall. Roedd e’n rhwydd gweld yn gwmws beth maen nhw wedi gwneud yn iawn er mwyn allu ailadrodd hwn eto. Roedd y plant hefyd yn dweud bod e’n rhwyddach i ddilyn esiampl dda os mae’r ganmolïaeth yn benodol, ac iddyn nhw gael gwybod yn union beth wnaeth plesio’r athrawes.

Un o’r cwestiynau yn y cyfweliad oedd ‘Sut i chi’n hoffi cael eich canmol?’ ac roedd y plant i gyd yn cytuno taw’r ganmolïaeth gorau oedd yr un wedi’i labelu i ymddygiad penodol, oherwydd bod e’n rhwyddach i ddilyn a chopïo neu ailadrodd.

Fe dewison y plant ffocws gyda amryw o wahanol lefel o ymddygiad dda ac amrïodol oherwydd roeddwn yn ceisio cael wir cynrychiolaeth y dosbarthau ond yn amlwg wrth edrych ar y graff uchod.

Casgliad

Mae llawer o ymagweddau a chynlluniau sy’n ymwneud a gwella ymddygiad yn seiliedig a chynyddu faint o ganmolïaeth mae athrawon yn defnyddio yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cynyddu hunan barch a hefyd atgyfnerthu ymddygiad dymunol. Mae canmol ymddygiad da i wella ymddygiad wedi cael ei phrofi i fod yn fwy effeithiol a llai niweidiol nag cosb (Robertson, 1996).

Fodd bynnag, fel y dangosir yr ymchwil yn ein hastudiaethau o wersi mae yna beryglon o roi canmolïaeth amhriodol fel creu awyrgylch rhy gystadleuol neu gall plant teimlo fel rhoi’r gorau iddi os mae pawb arall yn derbyn canmolïaeth ond amdanyn nhw yn y dosbarth. Mae’r effeithiolrwydd hefyd yn medru dibynnu ar oedran y plant, efallai na fydd plant ifanc yn sylwi pan fo canmolïaeth yn ddiffuant ond efallai bydd hwn yn fwy amlwg i

blant yn hyn. Mae plant ifanc hefyd yn fwy awyddus i blesio'r athro/athrawes ond efallai all hwn achosi embaras wrth iddynt fynd yn hŷn (Robertson, 1996).

Wrth gymharu ymateb ysgol 1 a 2 gwelir amrywiaeth yn agwedd y disgyblion tuag at yr elfen gystadleuol rhwng cyd-ddisgyblion ynglŷn â chanmoliaeth. Mae hyn yn awgrymu fod elfen yma yn gallu amrywio o ysgol i ysgol. Gellir mynd mor bell a dweud ei fod yn dibynnu i raddau ar gefndir a hefyd ddisgwyliadau disgyblion yn ogystal ag athrawon.

Yn yr ymchwil fe wnaethom ni ganfod bod labelu'r ganmoliaeth yn cael gwell effaith ar y plant ond yn ogystal â hyn mae pob plentyn yn cael ei effeithio yn wahanol ac mae rhaid i athro/athrawes allu newid y ffordd y caiff canmoliaeth ei chyflwyno. Efallai byddwn wedi cael ymchwil hollol wahanol yn gwneud yr ymchwil gyda phlant yn ifancach neu yn hŷn gyda Ware (1978) yn dadlau bod canmoliaeth ddim mor effeithiol gyda phlant hŷn. Er bod canmoliaeth yn medru gwella ymddygiad yn y dosbarth mae'n gallu achosi nifer o niweidiau megis ymddangos yn nawddoglyd, achosi embaras a chodi disgwyliadau ffug ac efallai byddai defnyddio plant targed arall neu ysgolion arall neu oedrannau eraill wedi rhoi canlyniadau hollol wahanol (Robertson, 1996).

Roedd y ddau grwp wnaethom ni cyfweld ac yn cytuno bod canmoliaeth yn cael effaith cadarnhaol ar ymddygiad ei hunain ac ymddygiad y dosbarth cyfan. Cred Brophy (1981) bod canmoliaeth yn strategaeth bwerus ar gyfer atgyfnerthu ymddygiad da a ni ellir anwybyddu'r ffaith bod yr ymchwil o'r astudiaeth gwersi hefyd wedi dangos pythau o hwn. Tra bod dadl Brophy (1981) efallai'n gywir, rhaid nodi bod canmoliaeth yn gallu cael effaith negyddol ar ddisgyblion ac mae esiampl o hyn yw weld yn geiriau grwp ffocws Ysgol 2.

Argymhellion

Pe bawn i'n ymchwilio i astudiaeth gwers eto byddwn i'n edrych yn fwy manwl ar gael data meintiol ar gyfer y gwahaniaeth rhwng canmoliaeth gyffredinol a chanmoliaeth wedi'i labelu gan edrych a'r canrannau o'r ddau yn y dosbarth i fedru gweld gwir wahaniaeth mewn effeithiolrwydd.

I sicrhau dibynadwyedd yn gofnodiad yr atebion byddai recordio neu ffilmio'r wers wedi cyfoethogi'r data can sicrhau bod y cofnodiad o'r data meintiol yn gywir (Walliman, 2017). Wrth edrych yn ôl, fe ddewison ni'r plant targed ar ran ei ymddygiad ond mae canmoliaeth yn rhywbeth sydd yn effeithio pob plentyn mewn gwahanol ffyrdd ac yn

dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau fel personoliaeth, magwraeth a.y.b. ac felly tybed a bydd dewis plant targed arall wedi rhoi gwahanol ganlyniadau yn gyfan gwbl?

Gellir dadlau ymhellach gan ddweud wrth ehangu'r sampl gellir wedi pwyso a mesur effaith y ganmoliaeth ar amryw o bersonoliaethau. I grynhoi, bydd edrych yn fwy manwl ar bersonoliaethau disgyblion wedi ein galluogi i gael gwell darlun o 'Sut mae canmol ymddygiad da yn cael effaith ar reolaeth ddosbarth?

I gloi, mae'n wybyddus fod yr ymchwil o gwmpas dwy astudiaeth gwers ddim yn ddigonol er mwyn gwneud unrhyw ganfyddiadau pendant ond gan ddweud hynny, byddai'n defnyddio'r wybodaeth fe wnes i ddarganfod trwy'r ymchwil yma i gyfoethogi ymarfer fy hun fel athro a pharhau i arbrofi gan ddefnyddio gwahanol strategaethau rheolaeth dosbarth.

Rhestr Cyfeirnod

Arthur, J. (2012) *Research methods and methodologies in education*. Sage publications.

British Educational Research Association [BERA] (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*, fourth edition, London. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Darllenwyd: 3 Mawrth 2019)

Brophy, J. (1981) 'Teacher praise: A functional analysis'. *Review of educational research*, 51(1), tud.5-32.

Canter, L., and Canter, M. (1992). *Assertive discipline: A take charge approach for today's educator*. California: Canter and Associates.

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2002) *Research methods in education*. Routledge.

Costello, P.J. (2003) *Action research*. New York: Continuum.

Docking, J. a MacGrath, M. (2013) *Managing behaviour in the primary school*. David Fulton Publishers.

Dix, K.L. (2007) DBRIEF: A Research Paradigm for ICT Adoption. *International Education Journal*, 8(2) tud. 113-124.

Dudley, P. (2014) *Lesson Study: Professional learning for our time*. London: Routledge.

Ellis, S. a Tod, J. (2014) *Promoting behaviour for learning in the classroom: Effective strategies, personal style and professionalism*. Routledge.

Estyn. (2013) Adroddiad arolygiad Ysgol 1. Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales> (Darllenwyd: 1 Mawrth 2019)

Estyn. (2017) Adroddiad arolygiad Ysgol 2. Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales> (Darllenwyd: 1 Mawrth 2019)

Floress, M.T., Beschta, S.L., Meyer, K.L. and Reinke, W.M. (2017) 'Praise research trends and future directions: Characteristics and teacher training', *Behavioral Disorders*, 43(1) tud. 227-243.

Gibbs, G. (1988). *Learning by doing: A guide to teaching and learning methods*. Further Education Unit.

Gorard, S. and Taylor, C. (2004) *Combining methods in educational and social research*. McGraw-Hill Education (UK).

Hall, R.V., Lund, D. and Jackson, D. (1968) 'EFFECTS OF TEACHER ATTENTION ON STUDY BEHAVIOR 1'. *Journal of applied behavior analysis*, 1(1), tud. 1-12.

Hopkins, D. (2014) *A teacher's guide to classroom research*. McGraw-Hill Education (UK).

Palaiologou, I., Needham, D. a Male, T. (2015) *Doing research in education: Theory and practice*. (3ydd argraffiad). Sage.

PCYDDS. (2017). Research Ethics & Integrity Code of Practice. Ar gael yn:
<https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf> (Darllenwyd: 26 Chwefror 2019)

Riddall-Leech, S. (2003) *Managing Children's Behaviour*. Heinemann.

Robertson, J. (1996) *Effective classroom control: understanding teacher-student relationships*. Hodder & Stoughton.

Robins, G. (2012) *Praise, motivation and the child*. Routledge.

Walliman, N. (2017) *Research methods: The basics*. New York: Routledge.

Ware, B.A. (1978) What Rewards Do Students Want?. *Phi Delta Kappan*, 59(5), tud .355-6.

Webster-Stratton, C. (1999) *How to promote children's social and emotional competence*. London: Sage.

Atodiadau

Atodiad A

Cwestiynau'r cyfweiliadau

- 1) Sut fydddech chi'n disgrifio ymddygiad y dosbarth?
- 2) Sut i chi'n credu bod eich ymddygiad yn cael effaith ar eich dysgu?
- 3) Sut i chi'n credu bod ymddygiad y dosbarth yn cael effaith ar eich ymddygiad chi?
- 4) Pam/Am beth roedd yr athrawes yn eich canmol?
- 5) Sut oeddech chi'n teimlo pan oedd yr athrawes yn eich canmol?
- 6) Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich canmol yn ddigon aml? Eglurwch eich ateb.
- 7) Sut i chi'n hoffi cael eich canmol? A pham?
- 8) Ydych chi'n credu bod canmoliaeth yn cael effaith ar eich ymddygiad?

Atodiad B

Siart cyfrif o ymddygiadau'r tri phlentyn ffocws Ysgol 2

Siart cyfrif o ymddygiadau'r tri phlentyn ffocws Ysgol 2			
	Plentyn A	Plentyn B	Plentyn C
Canmoliaeth gyffredinol	III	II	I
Canmoliaeth wedi'i labelu	~~IIII~~ I	~~IIII~~ III	~~IIII~~ ~~IIII~~

Siart cyfrif o ymddygiadau'r tri phlentyn ffocws Ysgol 1

Siart cyfrif o ymddygiadau'r tri phlentyn ffocws Ysgol 1			
	Plentyn A	Plentyn B	Plentyn C
Canmoliaeth gyffredinol	~~IIII~~ II	~~IIII~~ IIII	~~IIII~~ ~~IIII~~
Canmoliaeth wedi'i labelu	IIII	~~IIII~~ I	~~IIII~~

Atodiad C

Siart cyfrif o eirfa gadarnhaol/negyddol Ysgol 2

Siart cyfrif o eirfa gadarnhaol/negyddol ysgol 2			
	Dosbarth cyfan	Grŵp	Unigolion
Cadarnhaol	/ I	/	/
Negyddol		I	/

Siart cyfrif o eirfa gadarnhaol/negyddol Ysgol 1

Siart cyfrif o eirfa gadarnhaol/negyddol ysgol 1			
	Dosbarth cyfan	Grŵp	Unigolion
Cadarnhaol	/		/ /
Negyddol			/

Atodiad D

Taflen wybodaeth



Sut allwn wella rheolaeth y dosbarth drwy ganmol ymddygiad da?



Gwahoddiad

Dyma wahoddiad i chi gymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Ystyriwch y wybodaeth yn ofalus cyn penderfynu os hoffech gymryd rhan neu beidio. Croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau sy'n codi.

Bwriad yr ymchwil

Hoffwn eich help chi i ddarganfod sut allwn wella rheolaeth y dosbarth drwy ganmol ymddygiad da.

Pam gwneud yr ymchwil?

Mae'r ymchwil ar gyfer fy nhraethawd yn y Brifysgol ac fe fydd yn fy nghynorthwyo i fod yn well athrawes ac yn gwella ansawdd eich profiad dysgu chi.

Beth fydd yn digwydd?

Fe fydd Miss Davies yn gwneud nodiadau yn ystod y wers er mwyn darganfod effaith canmoliaeth ar eich ymddygiad. Bydd y nodiadau yn cael eu cadw mewn man diogel iawn. Byddant ar gael petai un ohonoch chi neu eich rhieni yn dymuno darllen y nodiadau.

Beth yw eich rôl chi?

Bydd disgwyl i chi ymateb yn briodol yn ystod y wers. Bydd tri ohonoch yn cael y cyfle i leisio eich barn mewn sgwrs ar ddiwedd y wers. Bydd y sgwrs yn cael ei recordio ond fe fydd y recordiad yn cael ei gadw yn ddiogel a chyfrinachol. Yna, ar ôl inni gasglu nodiadau yn ystod y wers ac yn ystod y sgwrs fe fyddaf yn dadansoddi'r gwaith er mwyn gweld beth sy'n llwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth.

Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i wrthod cymryd rhan yn yr ymchwil ac i gael eich eithrio ar unrhyw adeg. Bydd y cardiau coch a gwyrdd ar eich byrddau drwy gydol y wers, codwch y cerdyn coch os ydych yn dymuno gadael yr ymchwil.

Os ydych yn dymuno eglurhad pellach croeso i chi ofyn cwestiynau. Yna, ystyriwch eich penderfyniad yn ofalus a chodwch y cerdyn perthnasol.

Atodiad E

Tabl adfyfyrto Ysgol 1

1. Disgrifio Digwyddiadau Beth ddigwyddodd?	- Cyflwyno pwrpas yr ymchwil ar lafar i'r plant yn defnyddio'r daflen wybodaeth ar sgrin ryngweithiol - Rhoddwyd dewis i'r plant i gymryd rhan neu gael ei eithrio o'r ymchwil gan ddefnyddio cardiau coch a gwyrdd - Fe wnaeth pawb dewis carden wyrdd ac yn fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil - Cyflwynwyd yr ymwelydd ac esbonio presenoldeb - Defnyddio strategaeth o ganmol ymddygiad da a'r llafar - Defnyddio Olwyn fflat sy'n cyd-fynd a pholisi ymddygiad yr ysgol
2. Teimladau Sut oeddech chi'n teimlo?	- Nerfus oherwydd yr ansicrwydd o sut fyddai'r plant yn ymateb i'r ymchwil a hefyd i bresenoldeb yr ymwelydd - Pryderus o ein methodoleg
3. Llwyddiannau - Beth wnaeth llwyddo? 3. Methiannau - Beth aeth yn wael?	- Plant wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil - Plant yn deall disgwyliadau'r ymchwil - Plant yn hapus gyda phresenoldeb yr ymwelydd - Canmoliaeth wedi llwyddo i annog ymddygiad da - Defnydd o siart ymddygiad wrth ddangos esiampl dda wedi annog eraill i ddilyn - Canolbwyntio yn ormodol ar roi nifer o ganmoliaeth ac o ganlyniad roedd ansawdd y ganmoliaeth wedi cael ei effeithio e.e. canmol cyffredinol yn lle canmol wedi'i labelu

4. Cyswllt Theori/Dadansoddiad Gwneud synnwyr o'r sefyllfa	- Wrth edrych nôl ar ein hadolygiad o lenyddiaeth o gwmpas y pwnc, ni ellir anwybyddu'r ffaith bod ansawdd a diffiniad yr ymddygiad yn hanfodol er mwyn bod yn effeithiol - Ar yr un pryd dylid nodi bod y plant yn ymateb yn wahanol i ganmolïaeth
5. Casgliadau Sut allech chi fod wedi delio gyda'r sefyllfa?	- Yn deillio o hyn dylwn wedi trafod pellach y mathau gwahanol o ganmolïaeth ac yr ansawdd yn hytrach nag canolbwyntio ar sawl gwaith roedden ni'n canmol - Esiampl o hyn yw roedden wedi canolbwyntio yn ormodol ar eirfa gyffredinol o ganmolïaeth
6. Cynllun Gweithredu Targedau ar gyfer y tro nesaf?	- Mae'r dadleuon a roddwyd ger bron yn awgrymu bod angen labelu'r ganmolïaeth er mwyn bod y plant yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ac yn medru dilyn yr esiampl dda - Wrth dynnu tua'r terfyn byddwn yn canolbwyntio yn y wers nesaf ar ganmolïaeth benodol er mwyn dod ar ganfyddiadau pellach a mwy eglur

Atodiad F

Tabl adfyfrio Ysgol 2

4. Disgrifio Digwyddiadau Beth ddigwyddodd?	- Cyflwyno pwrpas yr ymchwil ar lafar i'r plant yn defnyddio'r daflen wybodaeth ar sgrin ryngweithiol - Rhodddwyd dewis i'r plant i gymryd rhan neu gael ei eithrio o'r ymchwil gan ddefnyddio cardiau coch a gwyrdd - Fe wnaeth pawb dewis carden wyrdd ac yn fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil - Cyflwynwyd yr ymwelydd ac esbonio presenoldeb - Defnyddio 'llond llaw' fel strategaeth rheolaeth dosbarth sy'n ymwneud a pholisi ymddygiad yr ysgol
5. Teimladau Sut oeddech chi'n teimlo?	- Hyderus ar ol adfyfrio'r wers gyntaf a gydau'n addasiadau - Barod i ymarfer yr hyn a thrafodwyd ar ol y wers gyntaf
6. Llwyddiannau - Beth wnaeth lwyddo? 7. Methiannau - Beth aeth yn wael?	- Plant wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil - Plant yn deall disgwyliadau'r ymchwil - Plant yn hapus gyda phresenoldeb yr ymwelydd - Llwyddo i gyrraedd targedau'r adfyfyriad cyntaf sef i ganolbwyntio ar ansawdd y ganmoliaeth yn ogystal â nifer - Yn gyffredinol roedd y plant yn ymateb yn well i ganmoliaeth wedi'i labelu ond serch hyn nid oedd yn effeithiol gyda phawb

8. Cyswllt Theori/Dadansoddiad Gwneud synnwyr o'r sefyllfa	- Er mwyn egluro hyn gellir ystyried bod personoliaethau wahanol ddisgyblion yn cael effaith ar ffordd maen nhw'n ymateb i ganmoliaeth - Mae hyn yn cadarnhau bod labelu canmoliaeth yn ddull llwyddiannus ond fodd bynnag nid yw'n gweithio i bawb ac roedd hwn yn amlwg yn y wers
9. Casgliadau Sut allech chi fod wedi delio gyda'r sefyllfa?	Yn deilio o hyn, dylir wedi ystyried personoliaethau'r unigolion a'r effaith byddai hyn yn cael ar ganlyniadau'r ymchwil
10. Cynllun Gweithredu Targedau ar gyfer y tro nesaf?	- Gellir dadlau ymhellach gan ddweud wrth ehangu'r sampl gellir wedi pwyso a mesur effaith y ganmoliaeth ar amryw o bersonoliaethau - I grynhoi, bydd edrych yn fwy manwl ar bersonoliaethau disgyblion wedi ein galluogi i gael gwell darlun o sut mae canmol ymddygiad da yn cael effaith ar reolaeth ddosbarth